7232NewsL:Welsh 25/7/08 11:28 Page 1

Dathlu Pen-Blwydd y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd

1883-2008 125 Years Blyned

Prifysgol Caerdydd
Cardiff University

125 o flynyddoedd yn ôl, cafwyd Siarter Frenhinol a newidiodd wyneb addysg yng Nghymru drwy sefydlu Coleg Prifysgol De Cymru a Mynwy – Prifysgol Caerdydd, bellach. Penodwyd John Viriamu Jones yn Brifathro cyntaf, yn 27 oed, ac agorwyd y Coleg ar 24 Hydref 1883 gyda 13 o staff academaidd a 151 o fyfyrwyr. Erbyn heddiw mae'r coleg bach hwnnw wedi tyfu yn un o'r prifysgolion mwyaf ei pharch a mwyaf poblogaidd ym Mhrydain, gyda 5,674 o staff a 25,997 o fyfyrwyr. Yn wir, yn ddiweddar fe'i rhestrwyd ymhlith y 100 prifysgol orau yn y byd.

O'r cychwyn cyntaf, roedd yn y Brifysgol yng Nghaerdydd Adran y Gymraeg. Hon yw un o'r adrannau Cymraeg cyntaf oll, ac yma mae'r Gadair Gymraeg sefydledig hynaf yng Nghymru. Hon hefyd oedd yr adran Gymraeg gyntaf i ddysgu'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Am dros ganrif y mae wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd Cymru ac wedi bod yn gartref i ysgolheigion a llenorion amlwg, gan gynnwys W. J. Gruffydd, G. J. Williams, A. O. H. Jarman a Saunders Lewis. Dros y blynyddoedd, mae Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd wedi datblygu i fod y fwyaf yng Nghymru, a chanddi 38 o staff llawn-amser.

Mae'r Ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar roi'r Gymraeg a'i diwylliant mewn cyd-destun rhyngwladol. Mae'n gartref i'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymry America ac i'r Uned Ymchwil Cynllunio, Iaith a Pholisi, sy'n cymharu'r sefyllfa ieithyddol yng Nghymru â'r sefyllfa mewn rhychwant eang o wledydd ar draws y byd. Cynhelir y Gynhadledd Faledi Ryngwladol yma eleni, tra bo cysylltiadau cyffrous ar fin dechrau gyda Phrifysgol Patagonia yn Nhrelew ac â Phrifysgol Nanjing yn China. Mae ein Cynorthwywyr Ymchwil yn dod o Batagonia, Canada, UDA, Siapan – a Sir Fôn! – a phob un ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Ond wedi dweud hynny, Cymru a Chaerdydd yw ein blaenoriaeth. Ers blynyddoedd bellach, rydym wedi bod yn cydweithio â'r Amgueddfa Werin i gynnig MA mewn Astudiaethau Gwerin; ers tair blynedd rydym wedi bod yn gweithredu'r Cynllun Sabothol Cymraeg ar ran Llywodraeth y Cynulliad; ac mae ein Canolfan Cymraeg i Oedolion yn gwasanaethu'r gymuned leol drwy ddysgu'r iaith i dros 1,700 o oedolion yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.
www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/canolfan/

Gwefan Newydd Sbon

Dysgwch fwy am:
- yr Ysgol a'r staff
- ein myfyrwyr cyfredol
- ein gwaith ymchwil
- sut i wneud cais

drwy ymweld ag
www.caerdydd.ac.uk/cymraeg

Astudio... a mwynhau!

Gall myfyrwyr Ysgol y Gymraeg fanteisio ar gyfleon lu i gymdeithasu a mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Y Gym Gym
- Aelwyd y Waun Ddyfal
- Aelwyd CF1
- Menter Caerdydd
- Undeb y Myfyrwyr, y gorau ym Mhrydain *(The Independent)*

Rhaglenni Gradd

BA yn y Gymraeg
- graddau BA (sengl a chydanrhydedd)
- gradd LLB (Y Gymraeg a'r Gyfraith)
- dewis eang o fodiwlau gan gynnwys cynllunio ieithyddol, gwleidyddiaeth a phropaganda, llenyddiaeth plant, ysgrifennu creadigol
- cyfle i wneud profiad gwaith yn rhai o brif sefydliadau Cymru

Graddau Uwch
- MA yn y Gymraeg
- MA mewn Astudiaethau Gwerin
- MPhil/PhD mewn meysydd megis llenyddiaeth ganoloesol a modern, cymdeithaseg iaith, Cymru ac America, hunaniaeth ac amlddiwylliannedd, theori perfformio, ysgrifennu creadigol

Huw Foulkes, enillydd y Fedal Drama yn Eisteddfod yr Urdd, 2008

Ifan Pleming, enillydd y Goron yn Eisteddfod Ryng-golegol 2008

7232NewsL:Welsh 25/7/08 11:28 Page 2

Canolfan Uwchefrydiau Cymry America

Sefydlwyd Canolfan Uwchefrydiau Cymry America yn 2001 er mwyn hybu astudio diwylliant, iaith, llên a hanes y Cymry ar gyfandiroedd America, ac yn enwedig yn yr Unol Daleithiau, Canada a Phatagonia. Trwy drefnu seminarau, darlithoedd a chynadleddau, trwy gyhoeddiadau, a thrwy hybu cydweithio a chyd-drafod ysgolheigaidd, ei nod yw bod yn ganolbwynt i rwydwaith rhyngwladol o ysgolheigion sy'n ymddiddori mewn maes astudio sydd ar gynnydd cyflym.



Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio

Sefydlwyd yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio yn gynnar yn 2005 er mwyn ffurfioli diddordebau ymchwil yn Ysgol y Gymraeg ym maes dadansoddi polisi iaith, datblygu methodoleg ac astudiaethau ymddygiad ieithyddol. Nod yr Uned yw arwain datblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol ym maes cynllunio ieithyddol. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddeall goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylchfydol iaith yn hanesyddol a daearyddol. Y pum thema sydd yn rhoi ffocws i waith yr Uned yw:

- dwyieithrwydd yn y cyd-destun Cymreig
- polisi a chynllunio ieithyddol cymharol
- dadansoddi daearyddol a gofodol;
- materion llywodraethiant, hawliau lleiafrifol a lluosrywiaeth
- cynllunio gofodol, amlddiwylliannedd ac amlieithrwydd.

Arbenigedd y Staff

Mae diddordebau ac arbenigedd staff yr Ysgol yn rhychwantu'r Gymraeg, ei llenyddiaeth, ac elfennau cymdeithasol a rhyngwladol lleiafrifoedd ieithyddol.

Ar yr ochr ieithyddol, mae diddordebau ymchwil y staff yn cwmpasu sosioieithyddiaeth y Gymraeg yng Nghymru a thu draw i Gymru, e.e. yn y Wladfa a'r UDA, cymdeithaseg iaith, cynllunio ieithyddol a pholisi iaith yng Nghymru, Ewrop a Chanada. Ar yr ochr lenyddol, mae'r diddordebau ymchwil yn cynnwys rhyddiaith a barddoniaeth yr Oesoedd Canol, crefft y cyfarwydd, llên a chwedlau gwerin, hanesyddiaeth a llenyddiaeth, yr emyn a'r faled, astudiaethau merched, llên De Ddwyrain Cymru, theori a beirniadaeth lenyddol, llenyddiaeth plant, ac amryw agweddau ar lenyddiaeth yr ugeinfed ganrif. Yn pontio rhwng iaith a llenyddiaeth mae diddordebau eraill, gan gynnwys theori a methodoleg trosi, cyfieithu a golygu, hunaniaeth ac amlddiwylliannedd, theori perfformio, ac astudiaethau ar grefydd y Cymry.

Pynciau Myfyrwyr Ymchwil Cyfredol

- Spatial Language Planning: Case Study of the Welsh Language
- Swyddogaeth Ysgrifennu Creadigol yn y Wasg Gymraeg yn y Wladfa
- Cyfraniad Hyfforddiant Ymwybyddiaeth am yr Iaith Gymraeg ar Gynllunio Ieithyddol a Disgwrs Ôl-drefedigaethol yng Nghymru
- Dafydd ap Gwilym a damcaniaeth Ôl-drefedigaethol
- Rheolaeth Strategol Cynlluniau Iaith
- Second Language Acquisition (Welsh) and Urban Social Networks
- Representations of Nationalism in Welsh Writing in English, 1925-1966
- Memoir and Identity in Welsh Patagonia
- Ymateb Cymry America i Genedlaetholdeb Plaid Cymru, 1925-1945
- Law and Minority Language Rights
- Rhyddiaith y tir diffaith. Delweddau o feichiogrwydd, mamolaeth, ffrwythlondeb a rhywioldeb yng ngwaith nofelwyr benywaidd Cymraeg, 1948-2008
- Cofiannau Owen Thomas, Lerpwl
- Y defnydd o'r Iaith Gymraeg o fewn y Diwydiant Teledu

7232NewsL:Welsh 25/7/08 11:28 Page 3

Llenyddiaeth Plant

Yn ogystal â'i diddordeb yn y traddodiad baledol, mae'r Dr Siwan Rosser hefyd yn ymddiddori yn swyddogaeth ac arwyddocâd llenyddiaeth plant yn ei chyd-destun hanesyddol, diwylliannol a chysyniadol. Byddai'n croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n dymuno ymchwilio yn y maes, gan gynnwys pynciau megis:

- llenyddiaeth i ferched/bechgyn a delweddau benywaidd/gwrywaidd
- cenedligrwydd a hunaniaeth Gymreig mewn testunau i blant
- genres megis straeon hanes/ffantasi/antur/domestig

Comisiynwyr Iaith

Mae'r Athro Colin Williams wedi ennill grant ymchwil gan yr Academi Brydeinig i archwilio systemau rheoleiddio iaith yn yr UDA, Canada ac Iwerddon. Pwrpas yr ymchwil yw casglu tystiolaeth o ymarfer da a data ar yr amryw ffyrdd o sicrhau hawliau ieithyddol ac archwilio cwynion mewn cyd-destunau gwahanol. Bydd hwn yn sail i'r hyn a all ddigwydd yma yng Nghymru, ac efallai yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon pe bai Comisiynwyr Iaith yn cael eu hapwyntio.



Prosiect Perfformio o'r Pulpud

Dwyn seren y gorffennol
A'i ddawn ir o ddoe yn ôl

Ydych chi'n cofio'r hen bregethwyr ers talwm? Oes 'na bregethwyr neu oedfaon hynod wedi aros yn y cof? Os oes gennych awydd rhannu atgofion, neu os ydych yn gwybod am unrhyw rai y dylem eu cyfweld, yna cysylltwch â ni. Mae casglu tystiolaeth lafar yn rhan bwysig o'r prosiect hwn sydd yn canolbwyntio ar astudio pregethu dramatig y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.

Profiad Gwaith

Dros sawl blwyddyn bellach, mae myfyrwyr y flwyddyn olaf wedi bod yn treulio cyfnod yn gwneud profiad gwaith mewn gweithleoedd Cymraeg fel rhan o'r modiwl Cymraeg y Gweithle. Dyma fodiwl blaengar sydd yn rhoi blas i fyfyrwyr ar y modd y defnyddir y Gymraeg mewn gwahanol yrfaoedd. Aeth myfyrwyr i weithio mewn sefydliadau fel S4C, BBC, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ACCAC, Agenda, Ffilmiau'r Nant, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a chwmnïau cyfieithu (Prysg, Trosol, Testun, adran gyfieithu Cynulliad Cenedlaethol Cymru), a hefyd mewn ysgolion lleol. Bu'r datblygiad hwn yn llwyddiant ysgubol, ac y mae sawl myfyriwr bellach wedi cael cynnig swydd barhaol yn y sefydliad y bu'n gweithio ynddo.

Cyhoeddiadau ar Wefan yr Ysgol

Gwefan Rhyddiaith Gymraeg 1350-1425
Yr Athro Peter Wynn Thomas, Dr Diana Luft, a Dr Mark Smith
Gwefan sy'n cyflwyno corff chwiliadwy o ryddiaith yr Oesoedd Canol. Gellwch weld cynnwys 28 o lawysgrifau yma: rhyw 1.8 miliwn o eiriau. Mae'r llawysgrifau'n ymgorffori dros 100 o destunau ar wahanol feysydd. Adnodd amhrisiadwy ar gyfer ymchwil pellach i iaith, llenyddiaeth, hanes a diwylliant y cyfnod.



Gwefan Baledi Cymru
Dr E. Wyn James
Dros y blynyddoedd bu'r faled yn ffurf bwysig a dylanwadol ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Hwyluso astudio baledi Cymru yw diben y wefan hon.

Peredur: Golygiad Lleiafol
Yr Athro Peter Wynn Thomas
Golygiad o *Peredur,* un o chwedlau'r *Mabinogion*.

Deddfwriaeth Newydd a'r Gymraeg
Yr Athro Colin Williams
Darlith a draddodwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau, 2005.

Staying the Course: Factors Influencing L2 Learner Dropout and Suggested Remedial Actions
Dr Tim Jilg

Catalog Archif Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
Dr E. Wyn James, Peter Keelan a'r Dr Rhodri Llwyd Morgan

Gwefan Ann Griffiths
Dr E. Wyn James
Gwefan ar gyfer astudio bywyd a gwaith Ann Griffiths (1776-1805), un o feirdd ac emynwyr pwysicaf Cymru, a bardd Cristnogol o faintioli rhyngwladol.

7232NewsL:Welsh 25/7/08 11:28 Page 4

Gyrfaoedd

Mae agoriadau gyrfaol amrywiol iawn ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio yn y Gymraeg. Bob blwyddyn, bydd myfyrwyr o Ysgol y Gymraeg yn mynd i swyddi sydd yn gysylltiedig â'r cyfryngau a chyfieithu. Bydd eraill yn dechrau ar yrfa ym myd gweinyddu, ac eraill yn mynd i ddysgu. Bydd nifer hefyd yn aros yn yr Ysgol i astudio am radd uwch: MA, MPhil, neu PhD.

Ond dim ond cyfran o'n myfyrwyr a fydd yn dilyn y llwybrau hynny: mae agoriadau eang iawn ar gyfer pobl a chanddynt gymwysterau yn y Gymraeg, gwybodaeth eang am Gymru a'i diwylliant, a sgiliau da wrth gyflwyno gwybodaeth, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er enghraifft, mae cyn-fyfyrwyr o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn gweithio mewn sefydliadau megis Amgueddfa Werin Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, y Cynulliad Cenedlaethol, a'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae eraill yn gweithio ym myd marchnata a chyhoeddi llyfrau, rhai yn rheoli personél neu yn rheoli mewn siopau mawrion, a sawl un wedi ennill cymwysterau proffesiynol mewn meysydd megis gwaith cymdeithasol a'r gyfraith.

Cysylltiadau â Phatagonia

Os dewch i Swyddfa'r Ysgol, byddwch yn cyfarfod ag Alicia Arthur, gwraig o Batagonia sydd ers peth amser bellach yn gynorthwyydd gweinyddol yma. Cewch ddewis felly o dair iaith – y Gymraeg, y Sbaeneg a'r Saesneg. Ond mae gennym gysylltiadau eraill hefyd â'r Wladfa. Hyd yn ddiweddar, bu'r Athro Robert Owen Jones, ynghyd â'r cynorthwy-ydd ymchwil Walter Brooks, yn gweithio ar ddau brosiect a ariannwyd gan Ymddiriedolaeth Leverhulme ('Goroesiad iaith? Y Gymraeg a'r Gymuned Gymreig yn y Wladfa' a 'Deinameg Adfywiad Iaith yn Chubut') sy'n canolbwyntio ar gymdeithaseg y Gymraeg (1900 – 2000) yn Nyffryn Camwy ac yng ngodre'r Andes. Bellach, mae Walter yn ysgrifennu traethawd PhD ar 'Swyddogaeth Ilenyddiaeth greadigol yn y wasg gyfnodol Gymraeg yn Ariannin, 1865-1945' yn ein Canolfan Uwchefrydiau Cymry America, tra bo ei wraig, Geraldine Lublin, yn gweithio ar hunaniaeth y Cymry ym Mhatagonia. Rydym hefyd yn croesawu myfyrwyr o Batagonia i'n Cwrs Haf bob blwyddyn, cwrs a ddarperir gan ein Canolfan Cymraeg i Oedolion. Ymunant â myfyrwyr o bob cwr o'r byd, gan gynnwys Ffrainc, Yr Almaen, Gwlad Pwyl, Sbaen, De Affrica, Brasil, America a Japan.

Cynllun Sabothol Cymraeg

Mae Ysgol y Gymraeg yn un o ddau leoliad sydd yn cynnig y Cynllun Sabothol Cymraeg. Nod y cynllun hwn, a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yw cynyddu hyder a sgiliau athrawon, darlithwyr neu hyfforddwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd y cwrs yn eu paratoi i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Am ragor o fanylion, gweler www.cynllunsabothol.org.

Prifysgol Colgate

Bob blwyddyn, yn ystod semester y gwanwyn, daw myfyrwyr o Brifysgol Colgate (Madison County, Efrog Newydd, UDA) draw i Brifysgol Caerdydd fel rhan o'u Rhaglen Astudio Dramor. Yn ogystal ag astudio eu pynciau gradd, rhoddir cyfle unigryw i bob un o'r myfyrwyr hyn astudio modiwlau yn Ysgol y Gymraeg, sef Diwylliant ac Astudiaethau Gwerin Cymru, Cymru a'r Gymraeg, a Llenyddiaeth Gymraeg Fodern. Un o uchafbwyntiau'r Rhaglen yw treulio penwythnos yng ngorllewin Cymru, a chael cyfle i ymweld â chartref Dylan Thomas yn Nhalacharn yng nghwmni un o Ddarlithwyr Cysylltiol yr Ysgol, sef y Prifardd T James Jones, sy'n awdur ac yn fardd o fri, ac yn gyn-enillydd y Goron a'r Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ffôn: 029 2087 4843
Ebost: Cymraeg@Caerdydd.ac.uk
Gwefan: www.caerdydd.ac.uk/cymraeg